Croeso i NSAFD Cymru

Fel rhan o gynllun strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer twf yn y diwydiant bwyd a diod yng Nghymru 2014-2020 mae NSAFD (Cymru) yn gweithio i helpu i godi proffil y diwydiant yng Nghymru a datblygu Cynllun Gweithredu i gefnogi strategaeth gyffredinol cynllun LIC.

Mae gan NSAFD Cymru strategaeth i ddatgloi potensial y diwydiant a rhoi i fusnesau y gallu angenrheidiol i gyflawni targedau twf y Cynllun Gweithredu.

Cyflwyniad

Y nod yw sefydlu endid 'Sgiliau Bwyd a Diod Cymru' i greu un porth ar gyfer busnesau, darparwyr a rhanddeiliaid (yn cynnwys yn rhyngwladol) i gefnogi cydweithrediad yn y diwydiant, ymchwil a datblygiad a darparu gweithgareddau'n ymwneud â'r sector bwyd a diod yng Nghymru.

I gyflawni hyn, mae NSAFD wedi datblygu nifer o amcanion strategol i helpu i adnabod a datblygu'r sgiliau angenrheidiol i symud ymlaen.

Nod y cynllun cyflawni ar gyfer 2016-17 yw parhau i gyflawni'r strategaeth integredig lawn er mwyn datgloi potensial y diwydiant a rhoi i fusnesau y gallu angenrheidiol i gyflawni targedau twf y Cynllun Gweithredu.

Mae gwefan Gyrfaoedd Blasus Cymru yn cynnwys nifer o adnoddau dwyieithog ar yrfaoedd e.e. astudiaethau achos llysgenhadon ifanc sy'n gweithio yn y diwydiant, proffiliau rôl swyddi fel map rhyngweithiol Gyrfaoedd Blasus a manylion am swyddi a chyrsiau y gall pobl ifanc eu cymryd fel llwybr gyrfa i'r diwydiant.

Bydd yn helpu i hyfforddi Llysgenhadon, a fydd yn cael hyfforddiant a chael eu mentora mewn cyrsiau hyfforddi penodol drwy Gymru, i'w galluogi i gynrychioli'r sector a'r cyfleoedd gyrfa cyffrous o'i fewn i ysgolion drwy Gymru.

Mae gweithgareddau 2016-17 eisoes wedi dechrau a byddant yn parhau i gael eu cynnal. Maent yn seiliedig ar ddenu dawn ar 4 prif ffurf sy'n rhan o fenter Denu Dawn Gyrfaoedd Blasus i fynd i'r afael â delwedd y sector. Cyflawnwyd hyn drwy;

- **Lysgenhadon Gyrfaoedd Blasus -** Yn sgil llwyddiant y rhaglen hyfforddi gyntaf, cynhelir dau gwrs arall yn ystod cyfnod y prosiect arfaethedig hwn, a fydd yn arwain at hyfforddi cyfanswm o 12 llysgennad ychwanegol. Bydd Llysgenhadon Gyrfaoedd Blasus yn helpu busnesau i weithio gydag ysgolion a cholegau lleol i hybu cyfleoedd o fewn y diwydiant.
- **Teithiau Blasus** - Bydd y cynllun hwn yn cynnwys gweithio gydag ysgolion a busnesau i gydlynu teithiau i fyfyrwyr o gwmpas safleoedd cynhyrchu bwyd go-iawn. Bydd y teithiau'n rhoi profiad ymarferol i fyfyrwyr o'r ffordd y mae busnesau o fewn y sector yn gweithredu,
- **Sioeau Sgiliau** – Er mwyn ymgysylltu ymhellach gyda phobl ifanc ar sail 1:1, bydd Gyrfaoedd Blasus yn bresennol mewn sioeau sgiliau allweddol a gynhelir drwy Gymru, yn cynnwys Sgiliau Cymru

Mae **NSAFD** hefyd wedi sefydlu endid **'Sgiliau Bwyd a Diod Cymru'** cyffredinol i greu un porth ar gyfer busnesau, darparwyr a budd-ddeiliaid (yn cynnwys yn rhyngwladol) i gefnogi cydweithrediad yn y diwydiant, ymchwil a datblygiad, a darparu gweithgareddau'n ymwneud â'r sector bwyd a diod yng Nghymru.

Gyda chymorth **NSAFD** byddwn yn dod â rhanddeiliaid allweddol o'r diwydiant at ei gilydd i ffurfio endid ac un porth y gall cyflogwyr ei ddefnyddio i gael cefnogaeth yn y sector sgiliau.

Trwy adeiladu'r model hwn, gellir sefydlu 'cartref' ar gyfer gweithgareddau sgiliau ar gyfer y sector, gan leihau dryswch i gyflogwyr a chynyddu'r gwerth a geir gan y gwahanol feysydd cefnogaeth.